CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 9 GORFFENNAF 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, K Humphreys, R G Parry, E Huws

YMDDIHEURIADAU
Cyng N Highley, S Parry, A Michael, C Ll Thomas, I Rowlands

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

DATGAN DIDDORDEB - Dim

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 11 Mehefin 2014
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Mai 2014, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng K Humphreys yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw - Mae y Cyngor Sir wedi trefnu cyfarfod ar y safle 10 Gorffennaf gyda Cyng A Michael
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Bydd y gwasanaeth wrth y gofab yn mynd ymlaen ar 3ydd o Awst. Mae'r clerc wedi trefnu cael torch. Mae y Cyngor yn disgwyl pris arall am y railings (Cyng I Rowlands wedi gofyn i Dyfed Pritchard), hefyd bydd y clerc yn trefnu cael pris am llythrenu a mae'r clerc wedi cael pris am lamp solar. Penderfynwyd symud ymlaen gyda cais am grant unwaith mae'r prisiau i gyd ar gael.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfannau Bws - mewn llaw. Hefyd bydd y clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir glanhau a twtio y cysgodfan sydd yn perthyn i'r Cyngor Sir (Treban).
Y Carreg Filltir - Mae Cyng I Rowlands wedi gofyn i Merfyn Hughes peintio y garreg filltir
20 myh wrth ymyl yr ysgol - Mae y Cyngor Sir wedi gwrthod gosod rampiau ar Lon Salem. Bydd y clerc yn cynnig gwahoddiad i'r Cyngor Sir i'r cyfarfod nesaf.
Maes chwarae - Mae Cyng I Rowlands wedi tynnu y tyrau oedd wedi torri a wedi tynnu yr hên swing. Bydd angen twtio y matiau.

LLOFNOD (Cadeirydd) 17 Medi 2014

ADRODDIAD Y CADEIRYDD- Dymunodd y Cadeirydd gwellhad buan i Cyng Ceri Thomas

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Priffyrdd
Lon Salem - gweler uchod

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Dim

MATERION ARIANNOL
Penderfynwyd talu y canlynnol - Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng E Huws yn eilio: £78 Play Safety (maes chwarae) £20 torch ar gyfer 03.08.14

MATERION ERAILL
Codi arain - Soniodd Cyng E Huws am codi arian tuag at y Iorwerth Arms - marathon ac ymlaen. Bydd Cyng K Humphreys yn dod ar mater i fynny yn cyfarfod nesaf y pwyllgor.
Bro Mynydd - Soniodd Cyng K Humphreys am ceir yn parcio ar y ffordd i mewn i Bro Mynydd. Bydd Cyng R G Parry yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir

LLOFNOD (Cadeirydd) 17 Medi 2014